

CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG FIDEO

1. Presennol

Nia Povey, Glyn Griffiths, Llio Griffiths, Richard Jones, Elin Jones

Clerc: Huw Rowlands

Cadeirio: Dafydd Watts

Ymddiheuriadau:

Dion Roberts

2. Datgan Diddordeb

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Watts ddiddordeb yn eitem 4.1 oherwydd ei fod yn byw dros y ffordd i Gae Isaf Carreg Frech.

3. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 7 Medi 2020. Cynnig: Nia Povey

Eilio: Glyn Griffiths

4. Materion yn codi o'r Cofnodion

4.1 Anghenion Tai Lleol a Deiseb Garreg Frech

Trafodwyd y ddeiseb a dderbyniwyd gan drigolion Garreg Frech yn mynegi amrwyiol bryderon am ddatblygiad tai yn y cae uwchben Garreg Frech.

Cytunwyd fod angen trafod pryderon trigolion Garreg Frech yn nghydestun yr arolwg anghenion tai gwledig sydd wrthi'n cael ei gynnal gam Cynefin ar hyn o bryd.

Penderfynwyd:-

1. Sicrhau estyniad y cyfnod ymgynghori tai gwledig am o leiaf fis. Gofynnwyd am hyn gam y Clerc, ond hyn ddim wedi digwydd. Dydy'r holiadur ddim ar gael i'w gwblhau ar y we. Angen rhoi copi o'r llythyr/holiadur ar wefan y Cyngor Cymuned.
2. Gofyn i Cynefin lythyru pob tŷ yn unigol efo'r holiadur ac amlen i ymateb, fel bod rhai nad sydd â mynediad i'r we yn medru ymateb. Angen sicrhau cyfeiriad unigol ar bob ymateb fel nad oes yna unrhyw ddyblygu ymatebion. Gallwsid rhoi nodyn ar hysbysfwrdd y siop hefyd.

Cytunwyd mai dyletswydd Cynefin oedd sicrhau fod unrhyw arolwg tai gwledig yn cael ei wneud yn effeithiol – ond byddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon cydweithio a rhoi cymorth.

3. Trefnu cyfarfod cyhoeddus drwy gyfrwng Teams a gofyn i Cynefin ac ADRA sut i oresgyn y broblem na all y rhai heb adnoddau cyfrifiadurol ymuno. Angen cynnal y cyfarfod cyhoeddus cyn dyddiad cau cwblhau'r arolwg fel bo cyfle i drigolion drafod a gofyn cwestiynau cyn cwblhau'r holiadur.
4. Ateb y ddeiseb gan drigolion Garreg Frech erbyn diwedd yr wythnos

Trafodwyd y ddiseb a anfonwyd ar ran trigolion Garreg Frech, ac fe gytunwyd y gallwsid dweud wrth y trigolion ein bod wedi cysylltu efo Cynefin ac ADRA i fynegi anhapusrwydd.

Beth sy'n bwysig yw fod yr anghenion tai lleol yn cael eu mesur yn glir, cyn trafod yn fanwl safle Garreg Frech. Mae'r cae yng Ngharreg Frech wedi ei glustnodi ar gyfer cartrefi fforddiadwy ers nifer o flynyddoedd, ac ni ellir gwyrddroi'r penderfyniad yna, ond fe ellir gweld os oes angen am dai fforddiadwy yn lleol, ac os oes, a yw'r safle yn Garreg Frech yn addas.

Does dim caniatad cynllunio ar y safle ar hyn o bryd a byddai unrhyw gais cynllunio yn dibynnu ar y galw am dai. Byddai'n rhaid hefyd i unrhyw gais cynllunio wedyn ddelio efo pryder lleol fel traffig ac yn y blaen.

Mae polisi gosod unrhyw gartrefi newydd yn poeni'r rhai arwyddodd y ddeiseb. Mae angen felly sicrhau fod gennym gopi o'r polisi

gosod cyfredol ar bapur, a gofyn hefyd os yw system Cyngor Gwynedd o ddyrannu tai i bobl leol gan ddfnyddio system fandio yn hytrach na system bwyntiau mewn grym ai peidio.

Mynegwyd pryder y gallasai ADRA werthu'r safle i ddatblygwr preifat os na ddangosir angen am dai fforddiadwy yn lleol. Mae angen felly gofyn i Adra fedran nhw werthu i eraill a beth yn union yw'r amodau ar y tir.

Os nad yw'r safle yng Ngharreg Frech yn addas ar gyfer unrhyw ddatblygiad, mae'n debyg y byddai angen darganfod safle arall yn y gymuned.

4.2 Cyfethol Aelod

Ni chafwyd unrhyw ymateb l'r hysbyseb am sedd wag. Penderfynwyd felly ymestyn y cyfnod l rai ddatgan diddordeb tan 2 Hydref 2020.

4.3 Amcanion Gwella a Llesiant Parc Cenedlaethol Eryri 2021-26

Cytunwyd i drafod y mater yma yng nghyfarfod mis Hydref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf – nos 5 Hydref am 19:30